



Ar hyn o bryd, rydyn ni, ar genhadaeth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hybu'r gyfradd ailgylchu, ond mae angen eich help chi arnom ni !

Mae ein Bwrdeistref Sirol ni'n cynhyrchu'r maint uchaf o wastraff, fesul person, yng Nghymru gyfan. Yn 2022, fe gynhyrchon ni dros 97,000 o dunelli o wastraff - gallai hynny lenwi cae'r Stadiwm Principality hyd at 8 metr o uchder!


Ond, os wnawn ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein pethau ni'n cael eu rhoi yn y biniau cywir, gallwn ni gyrraedd a rhagori ar darged ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70%.

Mae angen eich help chi arnom ni

Gallai 59% o'r hyn sy'n mynd yn ein biniau gwyrdd yng Nghaerffili gael ei ailgylchu!

12% deunyddiau ailgylchadwy eraill i

Canolfan Ailgylchu Gwastraff



2% gwastraff yr ardd

Rhagor o wybodaeth ar dudalen 6

Rhagor o wybodaeth ar dudalen 4



41% ddim yn ailgylchadwy ar hyn o bryd

Rhagor o wybodaeth ar dudalen 2

Rhagor o wybodaeth ar dudalen 3

14% ailgylchu



31% gwastraff bwyd



I weld sut y gallwch chi helpu, ewch i:

ailgylchu@caerffili.gov.uk

<https://www.caerffili.gov.uk/biniau-sbwriel>

01443 866533



Ailgylchu wrth ymyl y ffordd

Ble mae'ch cynhyrchion wedi'u hailgylchu yn mynd

Mae cynnwys eich bin ailgylchu brown yn cael ei gymryd i Gyfleuster Adfer Deunydd. Yn y Cyfleuster Adfer Deunydd, mae'r ailgylchu cymysg yn cael ei ddioli a'i wahanu'n wahanol fathau o ddeunyddiau, â llaw neu drwy beiriant (neu'r ddau) cyn ei anfon at weithgynhyrchwyr sy'n ei wneud yn gynhyrchion newydd. Unwaith y bydd deunyddiau wedi'u didoli, mae deunyddiau wedi'u hailgylchu yn dod yn nwyddau gwerthfawr yn y farchnad fyd-eang.

Beth sy'n gallu cael ei ailgylchu gartref?

Ar gyfartaledd, mae chwarter cynnwys pob bin ailgylchu brown yn cynnwys gwastraff cyffredinol y dylai gael ei roi yn y bin gwastraff cyffredinol gwyrdd. Dylech chi ddefnyddio eich bin ailgylchu brown neu focs ailgylchu ar gyfer yr holl ddeunyddiau sy'n gallu cael eu hailgylchu.

PLÎS:

✓ Papur

✓ Plastig

✓ Gwydr

✓ Caniau

✓ Cardfwrdd



Os oes gennych chi fin ailgylchu brown neu focs ailgylchu, NI ddylech chi roi eitemau mewn bagiau ond dylid eu glanhau a'u gosod yn rhydd yn eich bin neu focs. Os nad oes gennych chi fin neu focs ailgylchu, neu os oes gennych chi eitemau ailgylchu ychwanegol, dylen nhw gael eu gadael mewn bagiau plastig clir i'w casglu.



Mae un bin halogedig yn golygu bod y llwyth cyfan mewn perygl o gael ei wrthod sy'n effeithio'n negyddol ar ein cyfraddau ailgylchu ni a'r amgylchedd, felly ni fyddwn ni'n gwagio biniau sy'n cael eu hystyried eu bod wedi'u halogi ag eitemau sydd ddim yn gallu cael eu hailgylchu.

I gael rhagor o wybodaeth am ba eitemau all fynd i'ch bin ailgylchu brown sganwch y cod QR.



Ailgylchu plastig

Rydyn ni gyd yn gwybod bod llygredd plastig yn broblem fawr, ond gyda chymaint o wahanol fathau o blastig gall fod yn anodd gwybod beth sy'n mynd ble, felly dyma nodyn i'ch atgoffa chi o ba blastig y mae modd eu hailgylchu gartref:

Plîs:

✓ Potiau iogwrt

✓ Tybiau siocled neu losin

✓ Potiau bwyd a thybiau ar gyfer cawl / nwdls

✓ Tybiau sy'n cynnwys cynhyrchion glanhau

✓ Hambyrddau cig

✓ Tybiau menyn a margarîn

✓ Cynwysyddion prydau parod a cludfwyd



✓ Cynwysyddion basged ffrwythau a llysiau

✓ Potiau sy'n cynnwys cynhyrchion gofal croen a gwallt

✓ Hambyrddau cacennau

DIM Diolch:

✗ Potiau paent - mae modd eu hailgylchu nhw yn eich Canolfan Ailgylchu i Gartrefi leol

✗ Teganau plastig - mae modd eu hailgylchu nhw yn eich Canolfan Ailgylchu i Gartrefi leol

✗ Polystyren e.e. darnau pecynnu

✗ Pecynnau pothell plastig ar gyfer tabledi a phils

✗ Pecynnu plastig a bagiau siopa - mae modd eu

hailgylchu nhw mewn archfarchnadoedd penodol

✗ Potiau, tybiau neu hambyrddau plastig sy'n blastig du neu frown

Sut i ailgylchu plastig?

Defnyddiwch ddŵr golchi llestri dros ben i olchi'ch potiau, tybiau a hambyrddau plastig cyn eu hailgylchu nhw. Gall gweddillion bwyd halogi deunyddiau ailgylchadwy eraill. Gadewch unrhyw labeli a chaeadau ond tynnwch unrhyw ffilm blastig a phapur sugno a'u rhoi nhw yn eich bag neu fin chi ar gyfer gwastraff nad yw'n gallu cael ei ailgylchu. Ailgylchwch unrhyw lewys cardbord gyda'ch cardbord chi. Tynnwch unrhyw gaeadau ffilm ar botiau neu hambyrddau a'u hailgylchu nhw gyda pheynnau plastig a bagiau mewn archfarchnadoedd penodol. Fel arall, rhwch nhw yn eich bag neu fin chi ar gyfer gwastraff nad yw'n gallu cael ei ailgylchu.



Ailgylchu Gwastraff Bwyd


Lle mae eich gwastraff bwyd chi'n mynd?

Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, mae ein gwastraff bwyd sydd wedi'i ailgylchu yn cael ei brosesu trwy dreulio anaerobig.

Mae treulio anaerobig yn broses naturiol sy'n cymysgu bwyd a slyri gwartheg gyda'i gilydd. Yna, caiff y cynnyrch hwn ei ychwanegu at danc mawr, di-ocsigen o'r enw treuliwr anaerobig, ac mae'n ddeiet perffaith i'r microbau y tu mewn iddo gynhyrchu bio-nwy methan.

Yna, mae'r bio-nwy methan yn cael ei losgi i greu trydan adnewyddadwy sy'n gallu cael ei ddefnyddio i bweru ein cymunedau ni. Pan fydd y broses hon wedi'i chwblhau, mae gwrtaith naturiol o'r enw gweddillion treulio anaerobig yn cael ei adael ar ôl, ac mae hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar dir ffermydd i dyfu glaswellt llawn egni i'r gwartheg. Ac mae'r cylch yn parhau.

Meddai Pete Plisgyn...



Oeddech chi'n gwybod bod y gwastraff bwyd sy'n cael ei ailgylchu gan Fwrdeistref Sirol Caerffili yn cynhyrchu digon o egni i bweru 2000 o gartrefi?

Sut i ailgylchu eich gwastraff bwyd chi?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff bwyd wythnosol am ddim o bob un o'r 80,000 o aelwydydd.

Dylai trigolion fod â chadi cegin 5 litr AM DDIM i storio gwastraff bwyd yn fewnol a chadi awyr agored 23 litr AM DDIM.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn rhoi leinin yn eu cad i cegin i gadw'r gwastraff bwyd yn gynywysedig. Gallwch chi leinio'ch cad i chi â phapur newydd (fel yr un yma), leinin compostio neu fagiau eraill fel bagiau bara neu fagiau tatws.

Sganiwch y QR i archebu eich cad i gwastraff bwyd am ddim.



Pa fwyd sy'n gallu cael ei ailgylchu?

PLÛS:

- ✓ **Ffrwythau a llysiau**
- ✓ **Cig a physgod**
- ✓ **Bwyd dros ben**
- ✓ **Bwyd â dyddiad sydd wedi darford**
- ✓ **Bwyd tecawê**
- ✓ **Bara a phasta**
- ✓ **Grawnfwydydd a reis**
- ✓ **Bagiau te**
- ✓ **Cynhyrchion llaeth**
- ✓ **Plisg wyau**
- ✓ **Esgyrn**
- ✓ **Bwyd ci a chath**

Gweddillion am Arian

Oeddech chi'n gwybod eich bod chi'n gallu ennill £500 BOB MIS.

Mae 14 o ailgylchwyr gwastraff bwyd lwcus eisoes wedi ennill - a fyddwch chi nesaf? Rhwch eich gwastraff bwyd chi allan i'w gasglu er mwyn cymryd rhan yn awtomatig!


Sganiwch y cod QR uchod am ragor o wybodaeth..






Ailgylchu Gwastraff yr Ardd

Mae gwastraff yr ardd, fel gwastraff bwyd, yn cael ei gasglu bob wythnos a dylai gael ei roi allan i'w gasglu wrth ymyl y ffordd gan ddefnyddio unrhyw sach ardd.




Plîs:

- ✓ Dail
- ✓ Blodau marw
- ✓ Llwyni bach
- ✓ Chwyn
- ✓ Toriadau glaswellt
- ✓ Brigau
- ✓ Toriadau gwrychoedd



DIM Diolch:

- ✗ Canclwm Japan a rhywogaethau goresgynnol eraill
- ✗ Bwyd
- ✗ Tyweirch o'r ddaear
- ✗ Cerrig
- ✗ Rwbel
- ✗ Pridd
- ✗ Pren
- ✗ Gwastraff swmpus o'r ardd fel boncyffion a changhennau
- ✗ Deunyddiau adeiladu



I gael rhagor o wybodaeth am ble mae'r eitemau hyn yn mynd sganiwch y cod QR:



Compostio gartref

Mae compostio gartref yn dargyfeirio gwastraff organig o'n ffrydiau gwastraff ni. Mae hyn yn helpu i leihau faint o nwyon tŷ gwydr fel methan sy'n cronni.

Mae compost yn faethlon ac yn gallu darparu cyflyrydd pridd ardderchog ar gyfer eich gardd chi. Mae'n rhad ac am ddim ac yn wrtaith cyflawn ar gyfer pob planhigyn a llysieuyn. Mae'n darparu bwyd planhigion sylfaenol a chyflyrydd pridd o'r enw hwmws, ac felly'n gwella ffrwythlondeb a strwythur pridd.

Gall compost gael ei ddefnyddio yn lle gwrtaith niweidiol a mawn. Gallwch chi brynu biniau compost o ganolfanau garddio, siopau DIY a manwerthwyr ar-lein.



Hybiau Codi Sbwriel Caru Cymru

Ydych chi'n awyddus i lanhau eich ardal leol ond heb yr offer cywir?

Mae 184 o'n Hybiau Codi Sbwriel bellach ar agor ledled Cymru i gynorthwyo eich gweithgareddau ar lawr gwlad mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r hybiau hyn yn cynnig yr holl gyfarpar sydd eu hangen arnoch chi i gynnal gweithgareddau glanhau diogel er mwyn sicrhau bod eich ardal leol chi'n parhau i gael ei charu a'i gofalu amdani.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys codwyr sbwriel, siacedi llachar, bagiau sbwriel, a chylchynnau - sydd yn hanfodol ar gyfer cadw eich bagiau ar agor yn y gwynt. Ewch i un o Hybiau Codi Sbwriel Caru Cymru a gallwch chi fenthyg y pecyn AM DDIM!

Rhagor o wybodaeth: <https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/hybiau-codi-sbwriel/>

Atgyweirio

Yn y pen draw, bydd popeth rydyn ni'n ei brynu yn torri neu'n treulio. A phan fydd hyn yn digwydd, rydyn ni'n rhy aml yn cael gwared ar yr eitem sydd wedi torri neu'n hen, sydd yn cynhyrchu llawer o wastraff, ond nid oes rhaid iddo fod felly.

Mae'n hawdd atgyweirio'r rhan fwyaf o eitemau, yn aml am ychydig iawn o arian. Beth am roi ail fywyd i'ch eiddo chi, arbed rhywfaint o arian a symud Cymru i fod yn economi gylchol?

Dod o hyd i fusnesau atgyweirio lleol: <https://www.caerffili.gov.uk/cyweiriad>

Rheoliadau Ailgylchu i Fusnesau (Gweithle)

O 6 Ebrill 2024, bydd yn dod yn gyfraith i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru wahanu eu gwastraff nhw i'w ailgylchu. Bydd hyn yn gwella ansawdd y ffordd rydyn ni'n casglu ac yn gwahanu gwastraff, a faint rydyn ni'n ei gasglu.

Rhagor o wybodaeth: <https://businesswales.gov.wales/news-and-blogs/news/new-law-workplace-recycling>



Casglu Sbwriel

Unwaith y bydd eich gwastraff bwyd, gwastraff yr ardd a'ch ailgylchu cymysg chi wedi'u casglu, ychydig iawn o wastraff dylai fod ar ôl yn eich bin sbwriel.

Rhaid gosod sbwriel yn eich bin olwynion yn eich man casglu arferol erbyn 5.30am ar eich diwrnod casglu. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw sbwriel ychwanegol na fydd yn ffitio yn eich bin gyda'r caead ar gau.

Os nad oes gennych chi fin, byddwn ni'n casglu uchafswm o 4 bag du bob pythefnos.

Plîs:

- ✓ Cewynnau tafladwy
- ✓ Gwydr wedi torri
- ✓ Bagiau siopa
- ✓ Teganau wedi torri
- ✓ Olew coginio
- ✓ Polystyren
- ✓ Ffilm blastig
- ✓ Gwastraff anifeiliaid anwes
- ✓ Lludw oer

DIM Diolch:

- ✗ Dillad
- ✗ Unrhyw beth sy'n gallu cael ei ailgylchu
- ✗ Gwastraff bwyd
- ✗ Gwastraff yr ardd
- ✗ Cerrig, rwbel neu pridd
- ✗ Ddeunyddiau adeiladu
- ✗ Darnau neu fatris ceir
- ✗ Olew injan, paent neu gemegau
- ✗ Canghennau coed
- ✗ Gwastraff peryglus (er enghraifft asbestos a gwastraff clinigol)
- ✗ Lludw poeth - Gadewch iddyn nhw oeri
- ✗ Unrhyw beth sy'n rhy fawr i'w roi yn y bin yn hawdd

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael gwared ar yr eitemau hyn, sganiwch y cod QR.



Eich Diwrnodau Casglu Biniau

Dyma ein gwasanaethau casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd, a'r amllder:
Gwastraff bwyd - Bob wythnos
Gwastraff o'r ardd - Bob wythnos
Ailgylchu - Bob wythnos
Sbwriel - Bob pythefnos

I wirio eich diwrnod casglu biniau a lawrlwytho calendr i'ch dyfais, sganiwch y cod QR neu ffonio 01443 866533.




Nid yw'r rhan fwyaf o wyliau banc yn effeithio ar gasgliadau ond nid ydyn ni'n gweithredu ar Ddydd Nadolig neu Ddydd Calan.

Er mwyn sicrhau eich bod chi bob amser yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i ddyddiad casglu, cofrestrwch i dderbyn diweddariadau e-bost yn:

<https://public.govdelivery.com/accounts/UKCAERPHILLY/subscriber/new>





Ailddefnyddio Adnoddau

Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili ystod eang o adnoddau sy'n ymroddedig i helpu trigolion i ailddefnyddio eu nwyddau ail-law.

Siop Ailddefnyddio Penallta

Mae Siop Ailddefnyddio Penallta, mewn partneriaeth â'r elusen yn Ne Cymru, Wastesavers, yn rhoi'r cyfle i ddargyfeirio eitemau o ansawdd da, sy'n addas i'r diben o'r ffrwd wastraff, a'u rhoi nhw yn nwylo pobl sy'n gallu eu defnyddio nhw, am bris gwych.

Os oes gennych chi eitemau'r cartref sydd ddim yn cael eu defnyddio bellach ond sy'n rhy dda i'w taflu nhw, gallwch chi eu rhoi nhw i Siop Ailddefnyddio Penallta. Ewch â'ch hen nwyddau i mewn i'r siop a byddan nhw'n gwneud y gweddill, gan sicrhau bod eich eitemau diangen yn cael cartref newydd.

Mae'r holl elw sy'n cael ei godi drwy Siop Ailddefnyddio Penallta yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng gwaith elusennol Wastesavers ac elusen Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ystâd Ddiwydiannol Penallta,
South Road, Hengoed CF82 7ST

Gwefab: <https://www.caerffili.gov.uk/siop-ailddefnyddio-penallta>

Facebook: @ThePenalltaReuseShop



'The Furniture Revival'

Mae 'The Furniture Revival' yn cael ei redeg gan Groundwork Caerffili a'i nod yw hyrwyddo lleihau ac ailddefnyddio gwastraff ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bydd 'The Furniture Revival' yn casglu dodrefn diangen a rhai mathau o offer trydanol (dim offer nwy) yn rhad ac am ddim o eiddo ledled y Fwrdeistref Sirol. Yna caiff yr eitemau eu cludo i weithdy 'The Furniture Revival' a'u hatgyweirio/adfer fel eu bod nhw'n gallu cael eu gwerthu i breswylwyr ar incwm isel.



Mae'r fenter gymdeithasol yn cynnig casgliadau a danfoniadau am ddim ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

The Furniture Revival,
Uned 21, Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt,
Rhymniy NP22 5PW

Opening hours are Monday to Friday
from 9am to 4pm (Closed bank holidays)

Ffôn: 01685 846830

Gwefan: www.thefurniturerevival.co.uk

Facebook: @FurnitureRevivals



'ToyBox Project'

Mae 'ToyBox Project' yn cymryd eich teganau newydd ac ail law diangen ac yn eu hailgartrefu gyda theuluoedd a sefydliadau mewn angen. Maen nhw'n gweithio gyda phartneriaid niferus i sicrhau bod teganau yn mynd at y rhai mewn angen, megis ysgolion, cylchoedd chwarae, y GIG, grwpiau cymunedol amrywiol a theuluoedd mewn angen. Mae hyn yn helpu i gadw teganau allan o safleoedd tirlenwi a'u rhoi yn nwylo'r rhai sydd eu hangen.



Maen nhw'n gweithredu o warws teganau ym Medwas ac mae ganddyn nhw rwydwaith o fannau gollwng yn y Barri a Chaerffili.

ToyBox Project, 4a Swansbridge Court,
Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Bedwas,
Caerffili CF83 8FW

Am ragor o wybodaeth, neu i wneud cyfraniad neu wirfoddoli, ewch i:

Gwefan: www.ToyBoxProject.co.uk

Facebook: @ToyBoxProject



Cyfnewidfa Gwisg Ysgol Caerffili

Prosiect lleol yw Cyfnewidfa Gwisg Ysgol Caerffili sydd â'r nod o leihau gwastraff ac arbed arian i deuluoedd drwy ailgylchu: gwisg ysgol, dillad prom a dillad chwaraeon.

Cyfnewidfa Gwisg Ysgol Caerffili,
43 Attlee Court, Caerffili CF83 1QU



Caerphilly
**Uniform
Exchange**





Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi

Beth yw Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi?

Mae gan Gyngor Caerffili chwe Canolfan Ailgylchu i Gartrefi wedi'u lleoli ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi yn gyfleusterau dan oruchwyliaeth lle gall trigolion y Fwrdeistref Sirol fynd â deunyddiau cartref i'w hailgylchu a'u gwaredu. Er mwyn atal camddefnydd o'r safleoedd hyn, mae'n rhaid i bob preswlydd gyflwyno trwydded yrru ddilys i gael mynediad i'ch Canolfan Ailgylchu i Gartrefi leol.

Mae'n bwysig bod y deunyddiau rydych chi'n eu cyflwyno i'r safleoedd hyn yn cael eu rhoi yn y cynhwysydd cywir. Os nad ydych chi'n siŵr, gofynnwch i aelod o staff y safle.

Lle mae fy Nghanolfan Ailgylchu i Gartrefi leol?

- **Canolfan Ailgylchu i Gartrefi Aberbargod**
Ystâd Ddiwydiannol Bowen, CF81 9EP
- **Canolfan Ailgylchu i Gartrefi**
Trehir, CF83 3RP
- **Canolfan Ailgylchu i Gartrefi**
Ystâd Ddiwydiannol y Lleuad Lawn, NP11 7BD
- **Canolfan Ailgylchu i Gartrefi Penallta**
Ystâd Ddiwydiannol Penallta, CF81 7QZ
- **Canolfan Ailgylchu i Gartrefi Penmaen**
Ystâd Ddiwydiannol Penmaen, NP12 2XZ
- **Canolfan Ailgylchu i Gartrefi Rhymni**
Ystâd Ddiwydiannol Lawnt, NP22 5PW

Beth y mae modd ei waredu mewn Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi?

Plis:

- ✓ Gwydr
- ✓ Caniau
- ✓ Papur
- ✓ Tecstilau
- ✓ Esgidiau (mewn parau)
- ✓ Olew
- ✓ Metel Sgrap
- ✓ Cardbord
- ✓ Batris cartref
- ✓ Batris car
- ✓ Gwastraff yr ardd
- ✓ Poteli plastig
- ✓ Gwastraff cyffredinol y cartref
- ✓ Pren
- ✓ Setiau deledu/monitoriaid cyfrifiadur

Os ydych chi'n dymuno defnyddio fan, ôl-gerbyd neu gerbyd o fath masnachol i waredu gwastraff mewn Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi, mae'n rhaid i chi gael trwydded ac efallai y bydd tâl, yn dibynnu ar y math o wastraff rydych chi'n ei waredu.



Am ragor o wybodaeth am Ganolfannau Ailgylchu i Gartrefi a thrwyddedau, sganiwch y cod QR.



Casglu eitemau swmpus

Os nad yw'ch eitemau mawr chi'n addas i gael eu rhoi i Siop Ailddefnyddio Penallta neu 'The Furniture Revival' a ni allan nhw gael eu trwsio, rydyn ni'n cynnig gwasanaeth Casglu Eitemau Swmpus â thâl.

Plis:

- ✓ **Gosodiadau a ffitiadau**
(mewnol ac allanol)
- ✓ **Eitemau amrywiol i'r cartref**
(er enghraifft gatiau babanod, bwrdd smwddio, a thanc pysgod)
- ✓ **Dodrefn y cartref**
- ✓ **Nwyddau gwynion**
(ac eithrio oergelloedd, rhewgelloedd, ac oergell-rewgelloedd)
- ✓ **Eitemau trydanol**

DIM Diolch:

- ✗ Asbestos
- ✗ Twbâu twym
- ✗ Drymiau cemegion
- ✗ Gwastraff clinigol
- ✗ Boeleri, poteli nwy neu danciau olew
- ✗ Gwydr wedi torri
- ✗ Gwastraff adeiladu neu ddymchwel o safleoedd masnachol
- ✗ Gwastraff peryglus
- ✗ Gwastraff masnachol

Am ragor o wybodaeth ac i drefnu Casglu Eitemau Swmpus, sganiwch y cod QR.





Canllaw A-Y o ran Gwastraff

Dyma rai eitemau sy'n cael eu gosod yn aml yn y biniau anghywir - oeddech chi'n gwybod am y rhain?

A - Allweddï

I'w hailgylchu fel metel sgrap yn y Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi.



B - Batris

Dylech chi fynd â'ch batris cludadwy i'ch Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi lleol neu i bwyntiau ailgylchu batri pwrpasol mewn archfarchnadoedd.



B - Bylbïau golau

Dylech chi gymryd bylbïau golau a thiwbïo fflworoleuol i'ch Canolfan Ailgylchu i Gartrefi lleol.




C - Casetïau fideo

Dylech chi waredu casetïau fideo yn eich bin gwastraff cyffredinol.



C - Cetrï inc

Mae rhai ysgolion yn ailgylchu cetrï inc - fel arall, mae rhai gwneuthurwyr yn cymryd cetrï wedi'u defnyddio yn ôl i'w hailgylchu.



C - Cewynnau

Dylech chi roi cewynnau yn eich bin gwastraff cyffredinol.



C - Cwilt

Dylid mynd â chwiltïau i'ch Canolfan Ailgylchu i Gartrefi lleol.




C - Cylchgronau

Ailgylchwch gylchgronau yn eich bin ailgylchu.

Ch - Chwistrellau erosol

Rhowch ganïau erosol gwag yn y bin ailgylchu. Rhowch ganïau paent chwistrellu gwag yn y bin gwastraff cyffredinol.



E - Esgidiau

Gallwch chi roi esgidïau i siopau elusen neu fancïau dillad.




Ff - Ffoil

Rhowch hambyrddau bwyd ffoil glân, casys peis ffoil glân a phapur arian glân yn y bin ailgylchu. Dylai unrhyw ffoil â gweddillion bwyd gael eu rhoi yn y bin gwastraff cyffredinol.



G - Gwastraff cŵn

Dylai gwastraff cŵn cael ei waredu yn eich bin gwastraff cyffredinol.



G - Gwastraff peryglus

Dylech chi ymdrin â hwn yn ofalus. Os na allwch chi fynd â'r gwastraff i'ch Canolfan Ailgylchu i Gartrefi lleol bydd angen i chi drefnu gwaredu gyda chwmni preifat trwyddedig ag enw da.



G - Gwydr

Gall poteli a jarïau gwydr gael eu hailgylchu yn eich bin ailgylchu.



O - Olew

Dylai olew injan gael ei waredu yn eich Canolfan Ailgylchu i Gartrefi lleol. Dylai olew coginio gael ei gymryd i Ganolfan Ailgylchu i Gartrefi Penallta.



P - Pacedi creision

Dylai pacedi creision fynd yn eich bin gwastraff cyffredinol.



P - Papur lapïo

Gellir ei aildefnyddio neu ei ailgylchu yn eich bin ailgylchu. Dylid rhoi deunydd lapïo sgleiniog tebyg i ffoil yn y bin gwastraff cyffredinol.

P - Pecynnu plastig

Gall plastig a phecynnu meddal gael eu hailgylchu mewn archfarchnadoedd pwrpasol neu eu gwaredu yn eich gwastraff cyffredinol.



P - Plisg wyau

Gall plisg wyau gael eu hailgylchu yn eich cadi ailgylchu gwastraff bwyd.



P - Post sothach

I atal post sothach, cysylltwch â'r gwasanaeth dewis post. Os byddwch chi'n dal i gael y fath post, rhowch nhw yn y bin ailgylchu.

P - Potïau iogwrt

Gallwch chi ailgylchu y rhan fwyaf o botïau iogwrt yn eich bin ailgylchu.

R - Rwbel

Mae modd mynd â rwbel i'ch Canolfan Ailgylchu i Gartrefi lleol.



T - Tetra Pak

Gallwch gymryd Tetra Pak i Ganolfan Ailgylchu i Gartrefi Crosskeys.




Y - Ymbarelï

Dylid cael gwared ar ymbarelau yn eich bin gwastraff cyffredinol.



**Mae Polli Pot yn dweud ...
Am ragor o wybodaeth, ewch i:**



<https://www.caerffili.gov.uk/canllaw-gwastraff>